Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref - MA/LG/1405/21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Mawrth 2021

Annwyl Llywydd,

Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu bod yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 30 Mawrth, llai nag 21 diwrnod o'r dyddiad gosod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn wedi'i atodi er gwybodaeth i chi.

Diben y Rheoliadau yw parhau i atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau a leolir yn Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir, fod wedi'u rhewi'n ddwfn.

Dim ond yn ddiweddar iawn, ar 15 Mawrth, y cyhoeddodd Llywodraeth y DU amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno yn raddol reolaethau ar fewnforion sy'n cyrraedd o'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir. O ystyried bod yr esemptiad presennol i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2021, mae hyn yn golygu bod yr amser sydd ar gael i'r ddeddfwriaeth hon ddod i rym yn gyfyngedig iawn. Er mwyn osgoi unrhyw fwlch o ran atal yr amod mewnforio, gan atal y risg o ddryswch i fasnachwyr ac amharu ar fasnach, mae'n angenrheidiol i'r Rheoliadau ddod i rym ar 30 Mawrth 2021. Os na ddaw'r Rheoliadau i rym cyn 31 Mawrth 2021, byddai hyn yn golygu y byddai mewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri yn dechnegol anghyfreithlon i Gymru o 1 Ebrill 2021, a fyddai'n achosi goblygiadau negyddol i'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Mae Lloegr a'r Alban yn gwneud offerynnau cyfatebol i barhau i atal yr amod mewnforio hwn, nes bod seilwaith ac awdurdodau cymwys yn barod i gynnal archwiliadau ar y ffin, yn unol â'r cyflwyniad graddol diwygiedig o reolaethau mewnforio ar nwyddau sy'n cyrraedd o'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir. Er mwyn sicrhau y gellir parhau i orfodi gyda gweddill y DU, daeth yn angenrheidiol inni beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y Rheoliadau'n sicrhau bod dull gweithredu cyson yn cael ei fabwysiadu ledled Prydain Fawr tuag at fewnforion ac yn atal tarfu ar fusnesau ac awdurdodau cymwys. Mae'r dull hwn yn peri risg bioddiogelwch isel gan y gall Cymru fewnforio'r nwyddau hyn o'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) a'r Swistir ar hyn o bryd. Pe na fyddem yn cyd-fynd â'n gilydd, byddai mewnforwyr yn wynebu sefyllfa ddryslyd.

Bu gwaith ymgysylltu helaeth ledled Prydain â rhanddeiliaid y diwydiant Bwyd-Amaeth a chyda phartneriaid cyflenwi sydd â chyfrifoldebau dros reolaethau ffiniau iechydol a ffytoiechydol (SPS) (fel awdurdodau ffiniau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwyd), ers mis Ionawr 2021. O ystyried mai amcan y Rheoliadau yw cadw'r rhyddid presennol i fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri, nid ystyriwyd bod angen cynnal ymgynghoriad nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, paratowyd Memorandwm Esboniadol ac mae hwn wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd